

Cydlynnydd Gweithgareddau a Marchnata Amgueddfa Lloyd George 2019

(This is an advert for a 6 months commission as an Activities and Marketing Co-ordinator for The Lloyd George Museum, in partnership with Gwynedd Council and the Friends of the Lloyd George Museum, for which the ability to speak Welsh is essential)

1. Y Prosiect

Mae Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Cyngor Gwynedd, sydd yn gyfrifol am Amgueddfa Lloyd George, yn awyddus i gomisiynu Cydlynnydd Gweithgareddau a Marchnata a fydd yn cael ei ariannu gan Gyfeillion Amgueddfa Lloyd George.

Rydym yn edrych am unigolyn sydd yn frwdfrydig dros hanes a threftadaeth Gwynedd i gyd-gordio cyfres o weithgareddau i hyrwyddo Amgueddfa Lloyd George, Llanystumdwy a chyfraniad David Lloyd George a gafodd ddylanwad mawr ar hanes y byd. Mae yn un o ddim ond dwy amgueddfa yn y DU sy'n coffau prif weinidog.

Mae hwn yn benodiad llawrydd a disgwylir i'r unigolyn weithio'n agos gyda thîm Cyngor Gwynedd sy'n rhedeg yr Amgueddfa a Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i lunio a threfnu cyfres o weithgareddau mewn cydweithrediad a chanolfannau fel er enghraifft Neuadd Goffa Criccieth, Canolfan Tŷ Newydd, Ysgol Llanystumdwy, Yr Ysgwrn, Senedd Ieuenctid. Mi fydd angen eu marchnata gan anelu i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd yn lleol a hefyd yng Nghymru a thu hwnt. Rhagwelir hefyd cymryd rhan yn nigwyddiadau fel Plant mewn Amgueddfeydd, Gŵyl Amgueddfeydd Cymru a Drysau Agored.

Hoffem i'n cymunedau ac ymwelwyr gael cyfle i gymryd rhan, dysgu, mwynhau a gwerthfawrogi arwyddocâd hanesyddol David Lloyd George gan godi eu hymwybyddiaeth o Amgueddfa Lloyd George a'i gweld fel amgueddfa sydd yn berthnasol iddynt hwy.

Bydd y prosiect yma yn cynorthwyo'r Amgueddfa wrth iddi fynd drwy broses o adnabod opsiynau priodol ar gyfer ei rhedeg yn y dyfodol gan gynnwys y math o weithgareddau ddylai fod yn ei chynllun busnes.

Prif amcanion y prosiect:

- Hyrwyddo hanes David Lloyd George a'r Amgueddfa sydd yn adrodd ei stori.
- Addysgu cynulleidfaoedd am ei hanes.
- Codi brwdfrydedd ac ennyn diddordeb trigolion Gwynedd, Cymru a thu hwnt am hanes a threftadaeth a phynciau fel Cytundeb Heddwch Rhyfel Byd Cyntaf 1919.
- Cyd-weithio gyda phartneriaid yn lleol ac mewn rhannau eraill o'r DU i gynnig profiadau amrywiol fel gweithgareddau llenyddol ac awyr agored, ail greu hanes, sgysiau, gweithgareddau addysgiadol ac unrhyw gyfle arall ceir ei adnabod.
- Anelir i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau rhwng Mehefin a Thachwedd 2019 sydd yn plethu â dyddiadau arwyddocaol yn hanes David Lloyd George a'r byd.

2. Y Cydlynnydd

Comisiwn llawrydd yw hwn ac mae'n hanfodol bod y Cydlynnydd yn :-

- Brwdfrydig gyda gwybodaeth ag ymwybyddiaeth o hanes a threftadaeth Gwynedd ac yn arbennig am gyfraniad David Lloyd George i hanes Cymru, y DU a'r byd
- Profiad o farchnata a hyrwyddo
- Profiad o gydlynnu a threfnu gweithgareddau gan gynnwys unrhyw asesiadu risg fydd eu hangen
- Profiad o arwain prosiect, casglu adborth a gwerthuso prosiect
- Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Hyblyg gyda'i oriau i fynychu cyfarfodydd/gweithgareddau gan gynnwys penwythnosau a gyda'r nos yn nol yr angen
- Sgiliau cyfrifiadurol cryf ac yn hyderus wrth ddiweddarau gwefannau a defnyddio cyfryngau cymdeithasol gyda chyfrifiadur/gliniadur ar gyfer y gwaith
- Hyderus, hefo'r gallu i ymgysylltu yn naturiol gyda phobl
- Cyfforddus yn gweithio yn agos ac eraill ac yn annibynnol i helpu cyflawni'r prosiect cyffroes hon
- Trefnus ac yn gallu cadw at amserlen
- Trwydded yrru llawn

Mae'r gallu i weithio o gartref neu o swyddfa eich hunain yn hanfodol a bod gennych fynediad i gyfrifiadur ac i'r we.

3. Amserlen y Prosiect

Anelir i benodi erbyn dechrau Mehefin ac mi fydd y comisiwn yn parhau am gyfnod o 6 mis.

Mehelin 2019- Gorffennaf 2019	Gorffennaf 2019- Tachwedd 2019	Tachwedd 2019
Adnabod, cydlynu a chychwyn rhai gweithgareddau, cyfarfod gyda'r partneriaid.	Cynnal gweithgareddau a'u marchnata, parhau i gyfarfod gyda'r partneriaid.	Cau'r prosiect lawr ac adrodd yn ôl

4. Ffioedd

Cyfanswm ffi i'r Cydlynnydd : £7,200 am 6 mis ar gyfartaledd 2 ddiwrnod yr wythnos er mae hyblygrwydd gyda hyn yn ddibynnol ar y rhaglen a drefnir. Telir drwy dderbyn anfoneb am y gwaith yn fisol.

Bydd cyllideb ar gael ar gyfer treuliau a gweithgareddau gan gynnwys llogi, ffioedd ayyb hyd at £5,300.

5. Gweinyddiaeth a materion rhaid cydymffurfio gyda -

- a. Mae Cyngor Gwynedd wedi'i rwymo i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Mai 2018.
- b. Rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â darpariaethau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Gall y Cyngor derfynu'r Contract drwy hysbysiad ar unwaith os yw'r ymgeisydd yn destun archwiliad ffurfiol neu'n destun erlyniad am unrhyw drosedd dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
- c. Bydd yr unigolyn/ cwmni yn cael ei benodi trwy gyfnewid gohebiaeth.
- ch. Gall Cyngor Gwynedd ystyried gwahodd yr unigolyn/cwmni llwyddiannus i ymgymryd â gwaith dilynol yn seiliedig ar y cyfraddau comisiwn a gyflwynir, yn ddibynnol ar gyflawni'r comisiwn yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn fwy na 50% o'r gyllideb wreiddiol a ddyrannwyd.
- d. Bydd disgwyl i'r/ unigolyn/ cwmni llwyddiannus ddarparu dogfen gwerthusiad ar y prosiect ar ffurf dogfen word / pdf yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).
- dd. Bydd y gallu i ymgymryd â'r gwaith yn ddwyieithog yn hanfodol ac ni fydd yn bosib penodi unigolyn/cwmni sydd ddim yn gallu darparu hyn. Mae'n ofynnol cadw at bolisi dwyieithog Cyngor Gwynedd.
- e. Mae Cyngor Gwynedd yn cadw'r hawl i benodi'r unigolyn/cwmni ar sail yr arbenigedd a'r dull cadarn a ddangosir yn y cyflwyniadau ysgrifenedig ac yn y cyfweiliadau a drefnir. Nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwmo'i hun i dderbyn unrhyw un o'r cynigion a gyflwynir mewn ymateb i'r Briff hwn.
- f. Ni fydd Cyngor Gwynedd yn ad-dalu unrhyw gostau yn gysylltiedig â chyflwyno ymateb i'r cais hwn

6. Cyflwyno Cais

- Manylion unrhyw brofiad o gyflawni gwaith tebyg gyda thair enghraifft gan gynnwys enw'r cleientiaid all ddarparu geirda
- Y gallu i ddiwallu gofynion a amlinellir yn rhan 1
- Y gallu i gwblhau'r gwaith o fewn amserlen a dylai rhaglen y prosiect fod wedi ei chwblhau erbyn Tachwedd 2019.

7. Meini Prawf Sgorio.

- a. Bydd y meini prawf yn cael eu sgorio fel a ganlyn:
- b. Bydd y pwysau ar: **100 % Ansawdd.**

Meini Prawf	Sgorio (allan o'r hyn sy'n bosib)
Profiad perthnasol yn y maes treftadaeth, marchnata, rheoli prosiect a chydgordio a threfnu gweithgareddau gyda 3 enghraifft o'ch gwaith yn dangos hyn.	60
Y gallu i ddiwallu anghenion y prosiect a amlinellir yn adran 1 o'r briff hwn gan egluro sut fyddech yn trefnu'r prosiect	30
Y gallu i gwblhau'r gwaith yn llwyddiannus o fewn amserlen – darparwch raglen posib ar gyfer y gwaith	10

8. Gwneud Cais

I wneud cais, anfonwch yr holl fanylion a nodir yn bwynt 6 gyda CV a llythyr cais yn egluro pam eich bod chi'n addas ar gyfer y rôl ar e-bost at:

Nêst Thomas, Prif Swyddog Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

nestthomas@gwynedd.llyw.cymru

01286 679098

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 9 a.m, Dydd Gwener, Mai 24, 2019

Cyfweliad i wirio'r sgôr: i'w gadarnhau

Dyddiad dechrau: Dydd Llun, Mehefin 3, 2019 neu mor agos â phosib i'r dyddiad yma

Dyddiad gorffen: diwedd Tachwedd 2019



“Cefnogir gan Gyfeillion Amgueddfa Lloyd George”